# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH**
**9 Medi 2025**
**AM 7.00 TRWY ZOOM**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:**<br>Cyng I Roberts, P Roberts, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, C Thomas, G Parry, G Owen (Clerc) | |
| **YMDDIHEURIADAU:**<br>Cyng R G Parry, H Owens, S Jones, D Fowlie (Cyngor Sir) | |
| 1 | Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. |
| | |
| 2 | **DATGAN DIDDORDEB** – Cyng I Roberts eitem 8.2 |
| | |
| 3 | **DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14.07.25 fel cofnodion cywir. |
| | |
| 4 | **MATERION YN CODI O'R COFNODION** |
| 4.1 | **Maes Chwarae CCTV** – Mae'r Clerc yn aros i glywed gan y Pennaeth ynglŷn â dyfynbris arall. |
| 4.2 | **Terfyn cyflymder Engedi** – Mae y Cyngor Sir yn aros am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru. |
| 4.3 | **Mynwent Bryngwran** - Mae'r Clerc yn dal I aros i glywed gan yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn â dyddiad ar gyfer cysegru'r tir. Awgrymodd y Cynghorydd P Roberts y dylid gosod slabiau yn top y fynwent (ar hyd y wal) i atal unrhyw gladdedigaethau pellach o dan y coed. Awgrymodd y Cynghorydd C Thomas hefyd y dylid gosod stepiau o'r maes parcio i fyny i'r fynwent. Cytunwyd cynnal cyfarfod i drafod y rhain ymhellach pan fydd y tywydd yn gwella'r gwanwyn nesaf. |
| 4.4 | **Dosbarthwr bagiau cwn** - Bydd y Cynghorydd H N Evans yn mynd ar drywydd hyn gyda'r Cyngor Sir. Mynegwyd diolch i'r Cynghorydd C Thomas am wagio'r bin baw cŵn yn Lôn Tŷ Hen. Gan nad yw'r Clerc yn cael ymatebion gan Humphreys Waste ynghylch y contract i wagio'r bin, bydd y Cynghorydd H N Evans yn cysylltu â pherchennog y cwmni. |
| 4.5 | **Gwaith yn y maes Chwarae** - Mae angen gwaith draenio yn y maes chwarae ond nid oes gan y cyngor gyllid ar hyn o bryd. Cytunwyd i gyllidebu ar gyfer hyn y flwyddyn nesaf. |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 07.10.25 |

| | |
|---|---|
| **4.6** | **Giat Bro Isaf** - Nid oes unrhyw gyfathrebu pellach wedi bod gan y Cyngor Sir ynglŷn â'r mater hwn. Gofynnodd un aelod pam nad oes giât rhwng y cae chwarae a'r cae pêl-droed? Codwyd y ffens gan yr Adran Addysg. Cytunwyd i ofyn y cwestiwn hwn i'r Pennaeth y tro nesaf y cynhelir cyfarfod gyda hi. |
| **5** | **ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi'n bryd paratoi eto ar gyfer Dydd y Cofio ar Dachwedd 9fed. Cytunwyd y byddai lluniaeth yn cael ei darparu yn yr Iorwerth ar ôl y gwasanaeth a byddai'r cyngor yn talu'r costau. |
| **6** | **GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON** |
| | **Adran Tai** |
| **6.1** | Roedd cwyn wedi dod i law ynglŷn â charafán a oedd wedi'i leoli ym Mryngwran. Fodd bynnag, mae'r cyngor yn deallt ei fod wedi symud ymlaen heddiw. |
| **6.2** | Yn dilyn cwyn gan breswylydd o Fryngwran a anfonwyd at y Cyngor Sir, maen nhw'n datgan y byddan nhw mewn cysylltiad â'r achwynydd i ddatrys y mater. |
| | **Pwyllgor Safonnau** |
| **6.3** | Mae e-bost gan y Pwyllgor Safonau ar 04.09.25 wedi'i anfon at bob aelod ynghylch y Cod Ymddygiad. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r presenoldeb gwael yn yr hyfforddiant Cod Ymddygiad a gynigir gan y cyngor. Maent yn awgrymu bod pob aelod o'r Cyngor Cymuned yn mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad o leiaf unwaith yn ystod eu tymor yn y swydd a bod Cod Ymddygiad y Cyngor yn adlewyrchu hyn. |
| | **Cynllunio** |
| **6.4** | FPL/2025/104 Cais llawn ar gyfer gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yn Bryn Aber, 3 Lon Salem / Salem Street, Bryngwran – dim gwrthwynebiad |
| **7** | **GOHEBIAETH YCHWANEGOL** |
| **7.1** | Unllais Cymru – Asesiad Panel Perffomiad Cyngor Ynys Mon – gwybodaeth yn unig |
| **7.2** | A E & A T Lewis – pris am draenio y maes chwarae £7,806.79+ VAT – gweler 4.5 |
| **7.3** | Calon Hearts – gwybodaeth yn unig |
| **7.4** | Rhys Williams - Dyddiadau ar gyfer toriadau ar gyfer tymor 2025 wedi'u derbyn yn ôl y cais |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 07.10.25 |

| | |
|---|---|
| **8** | **MATERION ERAILL** |
| **8.1** | Mae rhan o'r wal sy'n arwain at fynwent y gymuned ym Mryngwran wedi dechrau dechrau dod I lawr. Gofynnwyd i'r Clerc gael dyfynbris ar gyfer gwaith atgyweirio. |
| **8.2** | Mae cais wedi dod i law i osod mainc ym mynwent gymunedol Bryngwran. Cytunwyd i ofyn am ffotograffau o'r fainc arfaethedig. |
| **8.3** | Llwybr yn y Fynwent – gweler 4.3 |
| **8.4** | Bin baw ci Lon Ty Hen – gweler 4.4 |
| **8.5** | Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Playquest am ddyfynbris ar gyfer atgyweirio'r swings (Gweler adroddiad blynyddol Rospa Mehefin 2025) |
| **9** | **MATERION ARIANNOL** |
| | Cytunwyd i dalu'r canlynol: |
| **9.1** | Humphreys Waste (Anf HWR31908) £24.00 (Anf 30887) £24.00 (Anf 27405) £36.00 |
| **9.2** | R Jones – trydanwr – defibrillator Plas Crigyll £240.66 |
| **9.3** | David Williams – ffension maes Chwarae £1056.00 |
| **9.4** | Mae'r Cynghorydd Ceri Thomas wedi cwblhau'r gwiriad cyllid chwarterol ar gyfer y cyfnod yn dod i ben 30.06.25. Nid oedd unrhyw wallau. |
| **10** | **MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF** |
| | Dim |
| | Llofnod……………………….Cadeirydd 07.10.25 |